Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

# Cylch Gwaith

## Grŵp Dysgu Digidol Rhanbarthol

### Cyd-destun

Mae datblygiadau parhaus trwy raglen Hwb / EdTech wedi arwain at well seilwaith craidd a mwy o ddyfeisiau defnyddwyr yn cael eu cyflwyno ar draws ysgolion y rhanbarth gyda'r nod o wella'r ymwneud â chyfres o strategaethau/blaenoriaethau cenedlaethol:

- Hybu ysgolion i ddefnyddio Hwb yn gyntaf, a chynnal hyn
- Rhaglen EdTech
- Bydd Cymhwysedd Digidol yn un o ofynion craidd Cwricwlwm i Gymru, yn un o'r sgiliau trawsgwricwlaidd ynghyd â Llythrennedd a Rhifedd
- Cyfoethogi gwytnwch digidol mewn cynllun gweithredu Addysg
- Taith Ddysgu Proffesiynol Ddigidol - wedi'i nodi yn Cenhadaeth ein Cenedl
- Adnodd cenedlaethol ar gyfer hunan arfarnu dysgu digidol
- Cynllunio Dysgu Anghydamserol o Bell / Cynllunio Dysgu Cydamserol o Bell
- Llinyn cyfrifiaduraeth Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg (MDaPh)
- Technoleg Ddigidol newydd TGAU / Safon Uwch
- E-sgol

### Prif Bwrpas

- Gosod allan gyfeiriad strategol i gefnogi GwE, yr Awdurdodau Lleol ac Ysgolion i weithredu'r strategaethau uchod
- Gwneud pob rhanddeiliad yn ymwybodol o ddatblygiadau mewn perthynas â'r strategaethau / blaenoriaethau uchod
- Rhoi lle i AauLl drafod a rhannu profiadau yng nghyd-destun y rhaglen EdTech
- Sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o ddatblygiadau a chyfleoedd sy'n codi yn sgil yr agenda ddysgu digidol ehangach
- Rhannu arferion effeithiol yn lleol ac yn rhanbarthol
- Rhoi mewnbwn strategol i raglenni dysgu proffesiynol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
- Archwilio a hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio technoleg ddigidol i gefnogi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ym mhob ffrwd ddysgu digidol
- Archwilio sut gall technoleg ddigidol gefnogi datblygiad pob agwedd ar y daith ddiwygio

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

## Dyletswyddau

Sicrhau cyfeiriad strategol clir ar gyfer gweithredu'r strategaethau / blaenoriaethau uchod yn effeithiol trwy gynllunio a goruchwylio'r agweddau a ganlyn:

- Gwreiddio Cymhwysedd Digidol fel sgil trawsgwricwlaidd a ddefnyddir i wella'r dysgu ar draws amrywiol gyd-destunau
- Hyrwyddo ysgolion i ddefnyddio'r adnoddau ar lwyfan Hwb
- Codi ymwybyddiaeth o wytnwch digidol ac amrywiol strategaethau i gadw disgyblion ac ysgolion yn ddiogel, yn unol â strategaeth a chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru
- Cynllunio'r ymwneud â'r Daith Ddysgu Proffesiynol Ddigidol pan fydd y canllawiau yn cael eu lansio
- Cynllunio'r ymwneud â'r adnodd cenedlaethol ar gyfer hunan arfarnu dysgu digidol
- Dadansoddi data'r adnodd hunan arfarnu er mwyn adnabod anghenion dysgu proffesiynol lleol a rhanbarthol
- Codi ymwybyddiaeth o'r prosiect cenedlaethol 'Cynllunio Dysgu Anghydamserol o Bell' er mwyn gwella profiadau dysgu yn ystod unrhyw weithgareddau dysgu cyfunol neu ddysgu o bell
- Rhannu arferion gorau ar draws y rhanbarth o ran Cymhwysedd Digidol, Gwytnwch Digidol, Dysgu Cyfunol, Dysgu o Bell neu unrhyw arferion arloesol
- Paratoi ysgolion i fod yn barod i weithredu llinyn cyfrifiaduraeth Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg (MDaPh)
- Archwilio sut gall technoleg ddigidol gefnogi CauSCA a blaenoriaethau eraill y daith ddiwygio

## Aelodaeth

Bydd aelodaeth graidd y grŵp yn cynnwys:
- Arweinydd Digidol GwE
- Y chwe Awdurdod Lleol - un cynrychiolydd o bob ALl

Yn achlysurol, gellir gwahodd aelodau yn unol â'r blaenoriaethau sydd wedi'u gosod a'r materion a drafodir.

## Adrodd

Bydd y grŵp hwn yn adrodd yn ffurfiol i'r bwrdd rheoli rhanbarthol bob hanner tymor gyda chofnodion cyfarfodydd, ac yn cyflwyno'r camau gweithredu a argymhellir i gael eu cymeradwyo.